

# SL(5)621 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru i ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i gael gwared ar Curacao, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Slofacia, a gwneud darpariaethau trosiannol cysylltiedig.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn:

1. ychwanegu esemptiad i'r gofynion ynysu ar gyfer athletwyr elitaidd sy'n byw yn y DU (a phersonau sy'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwyr elitaidd) wrth ddychwelyd o raglenni hyfforddi dramor;
2. gwneud eithriadau o'r gofynion ynysu ar gyfer athletwyr elitaidd a staff cymorth i fynd i sesiynau sgrinio meddygol ac ar gyfer chwaraewyr sydd newydd eu harwyddo er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn cystadlaethau; a
3. mewnosod digwyddiadau ychwanegol at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon penodedig yn Atodlen 4, er mwyn eithrio personau sy'n cystadlu yn y digwyddiadau hynny (neu'n darparu hyfforddiant neu gymorth arall i bobl sy'n cystadlu ynddynt) rhag y gofynion i ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## **1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn fersiwn Gymraeg y Rheoliadau, mae croesgyfeiriad anghywir yn y pennawd cyn rheoliad 3, sy'n darllen:

*'Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 24'.*

Dylai'r cyfeiriad at 'rheoliad 24' gyfeirio at 'rheoliad 2'. Mae'r fersiwn Saesneg yn gywir.

### **Rhinweddau: craffu**

Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 25 Medi 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn cadarnhau fel a ganlyn:

*"Felly, mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau technegol a nodwyd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

